


Briff Ymchwil

# Y Prif Weinidog ac Aelodau'r Cabinet – Hysbysiad hwylus ar y Cyfansoddiad

**Awdur:** Alys Thomas
**Dyddiad:** Mawrth 2018

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Alys Thomas**
Dyddiad: **Mawrth 2018**
Rhif Papur: **18-018**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: 0300 200 6305
: Alys.Thomas@Cynulliad.Cymru
: seneddymchwil.blog
: @SeneddYmchwil
: Cynulliad.Cymru/Ymchwil

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Y Prif Weinidog ac Aelodau'r Cabinet – Hysbysiad hwylus ar y Cyfansoddiad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Y Prif Weinidog a'r Cabinet

Mae ***Deddf Llywodraeth Cymru 2006*** ( "Deddf 2006 "), fel y'i diwygiwyd gan ***Ddeddf Cymru 2014*** a ***Deddf Cymru 2017***, yn sefydlu Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru) fel cangen weithredol y system wleidyddol ddatganoledig yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cynnwys y **Prif Weinidog** (First Minister), nifer o Weinidogion Cymru (Welsh Ministers), nifer o Ddirprwy Weinidogion Cymru (Deputy Welsh Ministers) a'r **Cwnsler Cyffredinol i Lywodraeth Cymru** (Counsel General to the Welsh Government). Mae Llywodraeth Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae pwerau gweithredol Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

– datblygu a gweithredu polisi;

– ymarfer ystod o swyddogaethau datganoledig;

– creu is-ddeddfwriaeth; a

– chynnig Deddfau'r Cynulliad i gael eu gwneud gan y Cynulliad Cenedlaethol.

## Y Prif Weinidog a Gweinidogion yn y Cynulliad Cyntaf a'r Ail Gynulliad

Darparodd ***Deddf Llywodraeth Cymru 1998*** ("Deddf 1998") ar gyfer "Prif Ysgrifennydd" ac "Ysgrifenyddion y Cynulliad". Etholwyd y Prif Ysgrifennydd gan y Cynulliad. Datganolwyd pwerau gweithredol o San Steffan i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a dirprwyodd y Cynulliad y pwerau hynny i'r Prif Ysgrifennydd.  Yna fe benododd Ysgrifenyddion y Cynulliad a dirprwyo pwerau iddynt. Dynododd Deddf 1998 y Prif Ysgrifennydd ac Ysgrifenyddion y Cynulliad at ei gilydd fel "y Pwyllgor Gweithredol" ond daeth yn hysbys fel "y Cabinet" o'r cychwyn cyntaf.

Wrth i'r Cynulliad sefydlu ei hun, cafwyd llawer o newidiadau a gryfhaodd gymeriad gweithredol ei ochr lywodraethol. Ym mis Chwefror 2000, penodwyd tri Dirprwy Ysgrifennydd i gefnogi Ysgrifenyddion y Cynulliad. Ym mis Hydref 2000 disodlwyd y term "Ysgrifenyddion" gan "Weinidogion"  a dechreuwyd defnyddio'r term "Prif Weinidog".  Fodd bynnag, ar yr adeg honno, nid oedd y teitlau newydd yn cael eu cydnabod gan y gyfraith.

Ym mis Tachwedd 2001, cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai'r term Llywodraeth Cynulliad Cymru/Welsh Assembly Government yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r Cabinet a'r swyddogion yn y dyfodol, ar wahân i'r rhai oedd yn gweithio i Swyddfa'r Llywydd. Roedd hyn er mwyn pwysleisio'r rhaniad rhwng adrannau "gweithredol" a "deddfwriaethol" y Cynulliad.

## Y Prif Weinidog ers 2007

Roedd Deddf 2006 yn rhannu'n ffurfiol sefydliad y Cynulliad yn ddau gorff ar wahân: Llywodraeth Cymru (y weithrediaeth) a Chynulliad Cenedlaethol Cymru (y ddeddfwrfa).

Roedd y Ddeddf hefyd yn cydnabod y term "Prif Weinidog" am y tro cyntaf.  Mae ef neu hi yn cael eu penodi gan y Brenin/Brenhines ar argymhelliad y Llywydd, a hynny yn dilyn pleidlais yn y Cynulliad.

Mae enwebu Aelod o'r Cynulliad i'w benodi'n Brif Weinidog yn cael ei sbarduno gan un o'r digwyddiadau hyn:

– cynnal pleidlais mewn etholiad cyffredinol;

– y Cynulliad yn penderfynu nad oes gan y Cynulliad hyder yng Ngweinidogion Cymru bellach;

– y Prif Weinidog yn cyflwyno'i ymddiswyddiad i'r Frenhines;

– Prif Weinidog Cymru yn marw neu'n methu gweithredu neu'n gyflwynol i ymddiswyddiad yn barhaol; a

– Phrif Weinidog Cymru yn peidio â bod yn Aelod o'r Cynulliad, ac eithrio os caiff ei ddiddymu (ee drwy ymddiswyddo o'r Cynulliad).

Pan fydd un o'r rhain yn digwydd, rhaid i'r Cynulliad enwebu Prif Weinidog o fewn 28 diwrnod.

Os bydd pleidlais o ddiffyg hyder yn cael ei basio gan y Cynulliad, mae Deddf 2006 yn darparu bod y Prif Weinidog yn parhau yn ei swydd ond rhaid i Ysgrifenyddion y Cabinet a'r Gweinidog ymddiswyddo. Caiff y sefyllfa ei datrys pan fydd y Cynulliad yn enwebu Prif Weinidog newydd (neu'n ail-enwebu'r un person fel Prif Weinidog).

Os bydd y Cynulliad yn methu â gwneud enwebiad o fewn y cyfnod o 28 diwrnod, bydd angen i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu diwrnod ar gyfer cynnal etholiad cyffredinol "eithriadol". Bydd y swyddogaeth hon o bennu etholiad yn cael ei basio o'r Ysgrifennydd Gwladol i'r Llywydd o 1 Ebrill 2018.

## Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion

Ar ôl penodiad, gyda chymeradwyaeth y Brenin/Brenhines, gall y Prif Weinidog benodi Aelodau Cynulliad i Lywodraeth Cymru. Mae un eithriad i hyn: nid oes rhaid i'r Cwnsler Cyffredinol fod yn Aelod Cynulliad. Yn wahanol i'r Alban, nid oes rhaid i'r penodiadau hyn gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad ei hun. Mae'r Ddeddf yn gosod terfyn o 12 swydd o fewn Llywodraeth Cymru, ac eithrio'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol.

Er bod Aelodau'r Cynulliad a benodir i Lywodraeth Cymru yn hysbys, yn ôl y gyfraith, fel Gweinidogion Cymru a Dirprwy Weinidogion Cymru, caiff y cyntaf ei ddisgrifio bellach fel "Ysgrifenyddion y Cabinet" a'r olaf yn "Weinidogion". Dim ond newid mewn terminoleg yw hyn ond nid yw wedi'i adlewyrchu yng ngeiriad Deddf 2006 ar hyn o bryd.

Gall y Prif Weinidog ddiswyddo Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion unrhyw adeg. Maent hefyd yn colli eu swydd os ydynt yn ymddiswyddo fel Aelodau'r Cynulliad.

## Atebolrwydd Cabinet Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn destun gwaith craffu gan y Cynulliad. Mae'r ffyrdd y caiff ei dwyn i gyfrif yn cynnwys:

– Mae Rheolau Sefydlog yn mynnu bod y Prif Weinidog yn ateb cwestiynau llafar yn y Cyfarfod Llawn am uchafswm o 60 munud yr wythnos pan fydd y Cynulliad yn eistedd;

– Cwestiynau Llafar: Gall Aelodau gyflwyno cwestiynau llafar i bob un o Ysgrifenyddion y Cabinet neu i'r Cwnsler Cyffredinol, am unrhyw faterion sy'n ymwneud â'i gyfrifoldebau ef neu hi am uchafswm o 45 munud, bob pedair wythnos pan fydd y Cynulliad yn eistedd. Gall Gweinidogion ateb cwestiynau llafar ar ran y Prif Weinidog a Gweinidogion eraill;

– **Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad (WAQs):** Gall Aelodau gyflwyno cwestiynau ysgrifenedig y Cynulliad i'r Prif Weinidog i bob un o Ysgrifenyddion y Cabinet neu i'r Cwnsler Cyffredinol, am unrhyw faterion sy'n ymwneud â'i gyfrifoldebau ef neu hi. Mae'n rhaid cyflwyno Cwestiynau Ysgrifenedig o leiaf bum diwrnod gwaith cyn y disgwylir iddynt gael eu hateb. Yn ymarferol, mae'r

Llywodraeth yn ceisio ateb o fewn saith neu wyth diwrnod ond nid yw'n orfodol iddynt wneud hynny;

– Pŵer i Alw: Mae'r Ddeddf yn galluogi'r Cynulliad i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw 'berson' fod yn bresennol yn nhrafodion y Cynulliad i roi tystiolaeth, neu i ddarparu dogfennau sydd ym meddiant neu reolaeth y person hwnnw, sy'n ymwneud ag unrhyw fater sy'n berthnasol i waith neu swyddogaethau'r Llywodraeth ar yr amod bod y person hwnnw'n ymwneud â'r swyddogaethau neu'r gweithgareddau o dan sylw mewn perthynas â Chymru.

Mae'n ofynnol i'r Prif Weinidog ac aelodau eraill Llywodraeth Cymru, felly, ymddangos gerbron y Cynulliad neu un o'i bwyllgorau.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw agwedd ar y cyfansoddiad, cysylltwch ag Alys Thomas (alys.thomas@cynulliad.cymru).